

Dydd Llun, 23 Medi 2024

Hysbysiad o gyfarfod

**Pwyllgor Cynllunio**Dydd Mawrth, 1af Hydref, 2024, 2.00 pm,  
Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA**AGENDA**

<b>Eitem Ddim</b>	<b>Eitem</b>	<b>Tudallennau</b>
1.	Ymddiheuriadau am absenoldeb.	
2.	Datganiadau o Fuddiant.	
3.	Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol.	1 - 2
4.	Ystyried yr adroddiadau Ceisiadau Cynllunio canlynol gan y Prif Swyddog, Cymunedau a Lleoedd (copiau wedi eu hatodi):	
4.1.	Cais DM/2023/01198 - Adeiladu 2 uned ddofednod ychwanegol a seilwaith cysylltiedig ar fferm ddofednod sefydledig. Fferm Coombe, Melin Cwm i Drenewydd Gelli-farch, Drenewydd Gelli-farch.	3 - 22
5.	ER GWYBODAETH - Apeliadau a dderbyniwyd – 1af Ebrill i'r 30ain Mehefin 2024.	23 - 24

**Paul Matthews****Prif Weithredwr**

## CYNGOR SIR FYNWY

### MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL SY'N DILYN:

Cynghorwyr Sir:

Jill Bond  
Fay Bromfield  
Emma Bryn  
Sara Burch  
Jan Butler  
John Crook  
Tony Easson  
Steven Garratt  
Meirion Howells  
Su McConnel  
Jayne McKenna  
Phil Murphy  
Maureen Powell  
Sue Riley  
Dale Rooke  
Ann Webb

### Gwybodaeth Gyhoeddus

**Bydd rhaid i unrhyw person sydd eisiau siarad yn Y Pwyllgor Cynllunio cofrestru gyda Gwasanaethau Democraidd erbyn hanner dydd ar diwrnod cyn y cyfarfod. Mae manylion ynglŷn a siarad yn cyhoeddus ar gael tu fewn i'r agenda neu yma [Protocol ar gyfraniadau gan y cyhoedd mewn Pwyllgorau Cynllunio](#)**

#### **Mynediad i gopiâu papur o agendâu ac adroddiadau**

Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democraidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

#### **Edrych ar y cyfarfod ar-lein**

Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i [www.monmouthshire.gov.uk](http://www.monmouthshire.gov.uk) neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

#### **Y Gymraeg**

Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn gyda dyledus barch i chi roi 5 diwrnod o hysbysiad cyn y cyfarfod os dymunwch siarad yn Gymraeg fel y gallwn ddarparu ar gyfer eich anghenion.

# Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

## Ein Pwrpas

- i ddod yn sir ddi-garbon, gan gefnogi lles, iechyd ac urddas i bawb ar bob cam o'u bywydau.

## Amcanion rydym yn gweithio tuag atynt

- Lle teg i fyw lle mae effeithiau anghydraddoldeb a thlodi wedi'u lleihau;
- Lle gwyrdd i fyw a gweithio gyda llai o allyriadau carbon a gwneud cyfraniad cadarnhaol at fynd i'r afael â'r argyfwng yn yr hinsawdd a natur;
- Lle ffyniannus ac uchelgeisiol, lle mae canol trefi bywiog a lle gall busnesau dyfu a datblygu;
- Lle diogel i fyw lle mae gan bobl gartref maen nhw'n teimlo'n ddiogel ynddo;
- Lle cysylltiedig lle mae pobl yn teimlo'n rhan o gymuned ac yn cael eu gwerthfawrogi;
- Lle dysgu lle mae pawb yn cael cyfle i gyrraedd eu potensial.

## Ein gwerthoedd

- **Bod yn agored:** anelwn fod yn agored ac onest i ddatblygu perthnasoedd ymddiriedus
- **Tegwch:** anelwn ddarparu dewis teg, cyfleoedd a phrofiadau a dod yn sefydliad a adeiladwyd ar barch un at y llall.
- **Hyblygrwydd:** anelwn fod yn hyblyg yn ein syniadau a'n gweithredoedd i ddod yn sefydliad effeithlon ac effeithiol.
- **Gwaith tîm:** anelwn gydweithio i rannu ein llwyddiannau a'n methiannau drwy adeiladu ar ein cryfderau a chefnogi ein gilydd i gyflawni ein nodau.
- **Caredigrwydd** – Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb yr ydym yn gweithio gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthnasoedd a'r cysylltiadau sydd gennym â'n gilydd wrth wraidd pob rhyngweithio.

## **Diben**

Diben yr adroddiadau a atodir a'r cyflwyniad cysylltiedig gan swyddogion i'r Pwyllgor yw galluogi'r Pwyllgor Cynllunio i wneud penderfyniad ar bob cais yn y rhestr a atodir, ar ôl pwysu a mesur y gwahanol ystyriaethau cynllunio perthnasol.

Dirprwywyd pwerau i'r Pwyllgor Cynllunio wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Mae'r adroddiadau a gynhwysir yn yr atodlen yma'n asesu'r datblygiad arfaethedig yn erbyn polisi cynllunio perthnasol ac ystyriaethau cynllunio eraill perthnasol, a rhoi ystyriaeth i'r holl ymatebion ymgynghori a dderbyniwyd. Daw pob adroddiad i ben gydag argymhelliad swyddog i'r Pwyllgor Cynllunio ar p'un ai yw swyddogion yn ystyried y dylid rhoi caniatâd cynllunio (gydag awgrym am amodau cynllunio lle'n briodol) neu ei wrthod (gydag awgrymiadau am resymau dros wrthod).

Dan Adran 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, mae'n rhaid i bob cais cynllunio gael eu penderfynu yn unol â Chynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy 2011-2021 (a fabwysiadwyd yn Chwefror 2014), os nad yw ystyriaethau cynllunio perthnasol yn awgrymu fel arall.

Disgwylir i'r holl benderfyniadau a wneir fod o fudd i'r Sir a'n cymunedau drwy ganiatáu datblygu ansawdd da yn y lleoliadau cywir, ac ymwrthod â datblygiad amhriodol, ansawdd gwael neu yn y lleoliad anghywir. Mae cysylltiad uniongyrchol i amcan y Cyngor o adeiladu cymunedau cryf a chynaliadwy.

## **Gwneud penderfyniadau**

Gellir cytuno ar geisiadau yn rhwym ar amodau cynllunio. Mae'n rhaid i amodau gyflawni'r holl feini prawf dilynol:

- Angenrheidiol i wneud y datblygiad arfaethedig yn dderbyniol;
- Perthnasol i ddeddfwriaeth cynllunio (h.y. ystyriaeth cynllunio);
- Perthnasol i'r datblygiad arfaethedig dan sylw;
- Manwl;
- Gorfodadwy; a
- Rhesymol ym mhob cyswllt arall.

Gellir cytuno i geisiadau yn amodol ar gytundeb cyfreithiol dan Adran 106 Deddf Cynllunio Tref a Gwlad 1990 (fel y'i diwygiwyd). Mae hyn yn sicrhau goblygiadau cynllunio i wrthbwysu effeithiau'r datblygiad arfaethedig. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r goblygiadau cynllunio hyn gyflawni'r holl feini prawf dilynol er mwyn iddynt fod yn gyfreithlon:

- Angenrheidiol i wneud y datblygiad yn dderbyniol mewn termau cynllunio;
- Uniongyrchol gysylltiedig â'r datblygiad; ac
- Wedi cysylltu'n deg ac yn rhesymol mewn maint a math i'r datblygiad.

Mae gan yr ymgeisydd hawl apelio statudol yn erbyn gwrthod caniatâd yn y rhan fwyaf o achosion, neu yn erbyn gosod amodau cynllunio, neu yn erbyn methiant y Cyngor i benderfynu ar gais o fewn y cyfnod statudol. Nid oes unrhyw hawl apelio trydydd parti yn erbyn penderfyniad.

Gall y Pwyllgor Cynllunio wneud argymhellion sy'n groes i argymhelliad y swyddog. Fodd bynnag, mae'n rhaid rhoi rhesymau am benderfyniadau o'r fath ac mae'n rhaid i'r penderfyniad fod yn seiliedig ar y Cynllun Datblygu Lleol (LDP) a/neu ystyriaethau cynllunio perthnasol. Pe byddai penderfyniad o'r fath yn cael ei herio mewn apêl, bydd yn ofynnol i Aelodau Pwyllgor amddiffyn eu penderfyniad drwy'r broses apêl.

## **Prif gyd-destun polisi**

Mae'r LDP yn cynnwys y prif bolisiâu datblygu a dylunio. Yn hytrach nag ail-adrodd y rhain ar gyfer pob cais, caiff y geiriad llawn ei osod islaw er cymorth Aelodau.

*Polisi EP1 - Gwarchod Amwynderau a'r Amgylchedd*

Dylai datblygiad, yn cynnwys cynigion ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau i adeiladau presennol a hysbysebion roi ystyriaeth i breifatrwydd, amwynder ac iechyd defnyddwyr adeiladau cyfagos. Ni chaniateir cynigion datblygu a fyddai'n achosi neu'n arwain at risg/niwed annerbyniol i amwynder lleol, iechyd, cymeriad/ansawdd cefn gwlad neu fuddiannau cadwraeth natur, tirlun neu bwysigrwydd treftadaeth adeiledig oherwydd y dilynol, os na fedrir dangos y gellir cymryd mesurau i oresgyn unrhyw risg sylweddol:

- Llygredd aer;
- Llygredd golau neu sŵn;
- Llygredd dŵr;
- Halogiad;
- Ansefydlogrwydd tir; neu
- Unrhyw risg a ddynodwyd i iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd.

#### Polisi DES1 – Ystyriaethau Dylunio Cyffredinol

Dylai pob datblygiad fod o ddyluniad cynaliadwy ansawdd uchel a pharchu cymeriad lleol a nodweddion neilltuol amgylchedd adeiledig, hanesyddol a naturiol Sir Fynwy. Bydd yn ofynnol i gynigion datblygu:

- a) Sicrhau amgylchedd diogel, dymunol a chyfleus sy'n hygyrch i bob aelod o'r gymuned, yn cefnogi egwyddorion diogelwch y gymuned ac yn annog cerdded a seiclo;
- b) Cyfrannu tuag at naws o le wrth sicrhau fod maint y datblygiad a'i ddwyyster yn gydnaws gyda defnyddiau presennol;
- c) Parchu ffurf, maint, lleoliad, casglu, deunyddiau a gweddllun ei osodiad ac unrhyw adeiladau cyfagos o ansawdd;
- d) Cynnal lefelau rhesymol o breifatrwydd ac amwynder defnyddwyr adeiladau cyfagos, lle'n berthnasol;
- e) Parchu'r golygfeydd adeiledig a naturiol lle maent yn cynnwys nodweddion hanesyddol a/neu amgylchedd adeiledig neu dirlun deniadol neu neilltuol;
- f) Defnyddio technegau adeiladu, addurniad, arddulliau a golau i wella ymddangosiad y cynnig gan roi ystyriaeth i wead, lliw, patrwm, cadernid a saerniaeth mewn defnyddio deunyddiau;
- g) Ymgorffori a, lle'n bosibl, wella nodweddion presennol sydd o werth hanesyddol, gweledol neu gadwraeth natur a defnyddio'r traddodiad brodorol lle'n briodol;
- h) Cynnwys cynigion tirlun ar gyfer adeiladau newydd a defnyddiau tir fel eu bod yn integreiddio i'w hamgylchiadau, gan roi ystyriaeth i ymddangosiad y tirlun presennol a'i gymeriad cynhenid, fel y'i diffinnir drwy broses LANDMAP. Dylai tirlunio roi ystyriaeth i, a lle'n briodol gadw, coed a gwrychoedd presennol;
- i) Gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o dir sy'n gydnaws gyda'r meini prawf uchod, yn cynnwys y dylai isafswm dwysedd net datblygiad preswyl fod yn 30 annedd fesul hectar, yn amodol ar faen prawf l) islaw;
- j) Sicrhau dyluniad sy'n ymateb i'r hinsawdd ac effeithiol o ran adnoddau. Dylid rhoi ystyriaeth i leoliad, cyfeiriadu, dwysedd, gweddllun, ffurf adeiledig a thirlunio ac i effeithiolrwydd ynni a defnyddio ynni adnewyddadwy, yn cynnwys deunyddiau a thechnoleg;
- k) Meithrin dylunio cynhwysol;
- l) Sicrhau y caiff ardaloedd preswyl presennol a nodweddir gan safonau uchel o breifatrwydd ac ehangder eu gwarchod rhag gor-ddatblygu a mewnlenni ansensitif neu amhriodol.

Cyfeirir at bolisiau perthnasol allweddol eraill yr LDP yn adroddiad y swyddog.

#### Canllawiau Cynllunio Atodol (SPG):

Gall y Canllawiau Cynllunio Atodol dilynol hefyd fod yn berthnasol i wneud penderfyniadau fel ystyriaeth cynllunio perthnasol:

- Seilwaith Gwyrdd (mabwysiadwyd Ebrill 2015)
- Canllawiau Dylunio Trosi Adeiladau Amaethyddol (mabwysiadwyd Ebrill 2015)
- Polisi H4(g) LDP Trosi/Adfer Adeiladau yng Nghefn Gwlad i Ddefnydd Preswyl - Asesu Ail-dddefnydd ar gyfer Dibenion Busnes (mabwysiadwyd Ebrill 2015)
- Polisiâu H5 a H6 LDP Anheddau yn Lle ac Ymestyn Anheddau Gwledig yng Nghefn Gwlad (mabwysiadwyd Ebrill 2015)

- Arfarniad Ardal Cadwraeth Trellech (Ebrill 2012)
- Garejys Domestig (mabwysiadwyd Ionawr 2013)
- Safonau Parcio Sir Fynwy (mabwysiadwyd Ionawr 2013)
- Ymagwedd at Oblygiadau Cynllunio (Mawrth 2013)
- Drafft Tai Fforddiadwy (Gorffennaf 2015)
- Drafft Ynni Adnewyddadwy ac Effeithiolrwydd Ynni (Rhagfyr 2014)
- Drafft Nodyn Cyngor Cynllunio ar Asesu Tirlun Datblygu ac Effaith Gweledol Tyrbinau Gwynt
- Drafft Prif Wynebau Siopau (Mehffin 2015)

### Polisi Cynllunio Cyhoeddus

Gall y polisi cynllunio cenedlaethol dilynol hefyd fod yn berthnasol i wneud penderfyniadau fel ystyriaeth cynllunio berthnasol:

- Polisi Cynllunio Cymru (PPW) 12
- Nodiadau Cyngor Technegol (TAN) PPW:
- TAN 1: Cydastudiaethau Argaeledd Tir Tai (2014)
- TAN 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy (2006)
- TAN 3: Symleiddio Parthau Cynllunio (1996)
- TAN 4: Manwerthu a Chanol Trefi (1996)
- TAN 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009)
- TAN 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010)
- TAN 7: Rheoli Hysbysebion Awyr Agored (1996)
- TAN 8: Ynni Adnewyddadwy (2005)
- TAN 9: Gorfodaeth Rheoli Adeiladu (1997)
- TAN 10: Gorchmynion Cadwraeth Coed (1997)
- TAN 11: Sŵn (1997)
- TAN 12: Dylunio (2014)
- TAN 13: Twristiaeth (1997)
- TAN 14: Cynllunio Arfordirol (1998)
- TAN 15: Datblygu a Risg Llifogydd (2004)
- TAN 16: Chwaraeon, Hamdden a Gofodau Agored (2009)
- TAN 18: Trafnidiaeth (2007)
- TAN 19: Telathrebu (2002)
- TAN 20: Y Gymraeg (2013)
- TAN 21: Gwastraff (2014)
- TAN 23: Datblygu Economaidd (2014)
- TAN 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (2017)
- Nodyn Cyngor Technegol Mwynol (MTAN) Cymru 1: Agregau (30 Mawrth 2004)
- Nodyn Cyngor Technegol Mwynol (MTAN) Cymru 2: Glo (20 Ionawr 2009)
- Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 016/2014 ar amodau cynllunio

### **Materion eraill**

Gall y ddeddfwriaeth ddilynol arall fod yn berthnasol wrth wneud penderfyniadau

#### Deddf Cynllunio (Cymru) 2016

Daeth Adranau 11 a 31 y Ddeddf Cynllunio i rym yn Ionawr 2016 yn golygu fod y Gymraeg yn ystyriaeth cynllunio berthnasol. Mae Adran 11 yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwerthusiad cynaliadwyedd, a gymerir wrth baratoi LDP, gynnwys asesiad o effeithiau tebygol y cynllun ar ddefnydd y Gymraeg yn y gymuned. Lle mae cynllun integredig sengl yr awdurdod wedi dynodi bod y Gymraeg yn flaenoriaeth, dylai'r asesiad fedru dangos y cysylltiad rhwng yr ystyriaeth ar gyfer y Gymraeg a'r prif arfarniad cynaliadwyedd ar gyfer yr LDP, fel y'i nodir yn TAN 20.

Mae Adran 31 y Ddeddf Cynllunio yn egluro y gall awdurdodau cynllunio gynnwys ystyriaethau yn ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau am ganiatâd cynllunio, cyn belled ag mae'n berthnasol i'r Gymraeg. Nid yw'r darpariaethau yn rhoi unrhyw bwysiad ychwanegol i'r Gymraeg o gymharu ag ystyriaethau perthnasol eraill. Mater i'r awdurdod cynllunio lleol yn llwyr yw p'un ai yw'r Gymraeg yn ystyriaeth berthnasol mewn unrhyw gais cynllunio, a

dylai'r penderfyniad p'un ai i roi ystyriaeth i faterion y Gymraeg gael ei seilio ar yr ystyriaeth a roddwyd i'r Gymraeg fel rhan o broses paratoi'r LDP.

Cynhaliwyd gwerthusiad cynaliadwyedd ar Gynllun Datblygu Lleol (LDP) Sir Fynwy a fabwysiadwyd yn 2014, gan roi ystyriaeth i'r ystod lawn o ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd, yn cynnwys y Gymraeg. Cyfran cymharol fach o boblogaeth Sir Fynwy sy'n siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg o gymharu gydag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru ac ni ystyriwyd fod angen i'r LDP gynnwys polisi penodol ar y Gymraeg. Roedd casgliad yr asesiad am effeithiau tebygol y cynllun ar y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned yn fach iawn.

#### Rheoliadau Asesiad Effaith ar yr Amgylchedd 1999

Mae Rheoliadau Cynllunio Tref a Gwlad (Asesiad Effaith ar yr Amgylchedd) (Lloegr a Chymru) 1999 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cynllunio Tref a Gwlad (Asesiad Effaith ar yr Amgylchedd) (Diwygiad) 2008 yn berthnasol i'r argymhellion a wnaed. Bydd y swyddog yn tynnu sylw at hynny pan gyflwynwyd Datganiad Amgylcheddol gyda chais.

#### Rheoliadau Cadwraeth Rhywogaethau a Chynefinoedd 2017

Lle aseswyd bod safe cais yn safle bridio neu glwydo ar gyfer rhywogaethau Ewropeaidd a warchodir, bydd angen fel arfer i'r datblygydd wneud cais am "randdirymiad" (trwydded datblygu) gan Cyfoeth Naturiol Cymrau. Mae pob rhywogaeth o ystlumod, pathwod a madfallod cribog mawr yn enghreifftiau o'r rhywogaethau gwarchodedig hyn. Wrth ystyried ceisiadau cynllunio mae'n ofynnol i Gyngor Sir Fynwy fel awdurdod cynllunio lleol roi ystyriaeth i Reoliadau Cadwraeth Rhywogaethau a Chynefinoedd 20120 (y Rheoliadau Cynefinoedd) ac i'r ffaith mai dim ond lle cyflawnir tri phrawf a nodir yn Erthygl 16 y Gyfarwyddeb Cynefinoedd y caniateir rhanddirymiaid. Caiff y tri phrawf eu nodi islaw.

(i) Mae'r rhanddirymiad er budd iechyd a diogelwch y cyhoedd, neu am resymau hanfodol eraill o ddiddordeb pennaf i'r cyhoedd, yn cynnwys rhai o natur economaidd a chanlyniadau buddiol o bwysigrwydd sylfaenol i'r amgylchedd.

(ii) Nad oes dewis arall boddhaol.

(iii) Nad yw'r rhanddirymiad yn niweidiol i gynnal y boblogaeth o'r rhywogaeth dan sylw drwy statws cadwraeth ffafriol yn eu hardal naturiol.

#### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Nod y Ddeddf yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn gosod nifer o amcanion llesiant

- **Cymru lewyrchus;** defnydd effeithiol o adnoddau, pobl fedrus ac addysgedig, cynhyrchu cyfoeth, darparu swyddi;
- **Cymru gref;** cynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth ac ecosystemau sy'n cefnogi hynny ac a all addasu i newid (e.e. newid yn yr hinsawdd);
- **Cymru iachach;** cynyddu llesiant corfforol a meddyliol pobl i'r eithaf a deall effeithiau iechyd;
- **Cymru o gymunedau cydlynol:** cymunedau yn ddeniadol, hyfyw, diogel a gyda chysylltiadau da.
- **Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang:** rhoi ystyriaeth i effaith ar lesiant byd-eang wrth ystyried llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol lleol;
- **Cymru gyda diwylliant egniïol a'r iaith Gymraeg yn ffynnu:** caiff diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg eu hyrwyddo a'u diogelu. Caiff pobl eu hannog i gymryd rhan mewn chwaraeon, celf a hamdden;
- **Cymru fwy cyfartal:** gall pobl gyflawni eu potensial beth bynnag yw eu cefndir neu amgylchiadau.

Caiff nifer o egwyddorion datblygu cynaliadwy hefyd eu hamlinellu:

- **Hirdymor:** cydbwyso angen tymor byr gyda'r hirdymor a chynllunio ar gyfer y dyfodol;
- **Cydweithio:** cydweithio gyda phartneriaid eraill i gyflawni amcanion;
- **Ymggyfraniad:** cynnwys y rhai sydd â diddordeb a gofyn am eu barn;
- **Atal:** rhoi adnoddau i ateb problemau rhag digwydd neu waethygu;
- **Integreiddio:** cael effaith gadarnhaol ar bobl, yr economi a'r amgylchedd a cheisio bod o fudd i bob un o'r tri.

Mae'r gwaith a wneir gan awdurdod cynllunio lleol yn cysylltu'n uniongyrchol â hyrwyddo a sicrhau datblygu cynaliadwy ac yn anelu i sicrhau cydbwysedd rhwng y tri maes: amgylchedd, economi a chymdeithas.

#### Trefn Troseddu ac Anrhefn 1998

Mae Adran 17(1) Deddf Troseddu ac Anrhefn 1998 yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i weithredu ei wahanol swyddogaethau gan roi ystyriaeth ddyledus i effaith debygol gweithredu'r swyddogaethau hynny ar, a'r angen i wneud popeth y gall ei wneud yn rhesymol i atal troseddu ac anrhefn yn ei ardal. Gall troseddu ac ofn troseddu fod yn ystyriaeth cynllunio berthnasol. Tynnir sylw at y pwnc hwn yn adroddiad y swyddog lle mae'n ffurfio ystyriaeth sylweddol ar gyfer cynnig.

#### Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus i integreiddio ystyriaeth cydraddoldeb a chysylltiadau da ym musnes rheolaidd awdurdodau cyhoeddus. Mae'r Ddeddf yn dynodi nifer o 'nodweddion gwarchoddedig': oedran, anabledd, aillbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; hil; crefydd neu gredo; rhyw; a chyfeiriadedd rhywiol. Bwriedir i gydymffurfiaeth arwain at benderfyniadau a wnaed ar sail gwybodaeth well a datblygu polisi a gwasanaethau sy'n fwy effeithlon ar gyfer defnyddwyr. Wrth weithredu ei swyddogaethau, mae'n rhaid i'r Cyngor roi ystyriaeth ddyledus i'r angen i: ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad arall a gaiff ei wahardd gan y Ddeddf; hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt; a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt. Mae rhoi ystyriaeth ddyledus i hyrwyddo cydraddoldeb yn cynnwys: dileu neu leihau anfanteision a ddioddefir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig; cymryd camau i ddiwallu anghenion o grwpiau gwarchoddedig lle mae'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill; ac annog pobl o grwpiau gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.

#### Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru)

Mae ymgynghoriad ar geisiadau cynllunio yn agored i'n holl ddinasyddion faint bynnag eu hoed; ni chynhelir unrhyw ymgynghoriad wedi'i dargedu a anelwyd yn benodol at blant a phobl ifanc. Yn dibynnu ar faint y datblygiad arfaethedig, rhoddir cyhoeddusrwydd i geisiadau drwy lythyrau i feddianwyr cyfagos, hysbysiadau safle, hysbysiadau yn y wasg a/neu gyfryngau cymdeithasol. Nid yw'n rhaid i bobl sy'n ymateb i ymgynghoriadau roi eu hoedran nac unrhyw ddata personol arall, ac felly ni chaiff y data yma ei gadw na'i gofnodi mewn unrhyw ffordd, ac ni chaiff ymatebion eu gwahanu yn ôl oedran.



## **Protocol ar gyfraniadau gan y cyhoedd mewn Pwyllgorau Cynllunio**

Dim ond yn llwyr yn unol â'r protocol hwn y caniateir cyfraniadau gan y cyhoedd mewn Pwyllgorau Cynllunio. Ni allwch fynnu siarad mewn Pwyllgor fel hawl. Mae'r gwahoddiad i siarad a'r ffordd y cynhelir y cyfarfod ar ddisgresiwn Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ac yn amodol ar y pwyntiau a nodir islaw.

### **Pwy all siarad**

#### Cynghorau Cymuned a Thref

Gall cynghorau cymuned a thref annerch y Pwyllgor Cynllunio. Dim ond aelodau etholedig cynghorau cymuned a thref gaiff siarad. Disgwylir i gynrychiolwyr gydymffurfio â'r egwyddorion dilynol: -

(i) Cydymffurfio â Chod Cenedlaethol Ymddygiad Llywodraeth Leol. (ii) Peidio cyflwyno gwybodaeth nad yw'n:

- gyson gyda sylwadau ysgrifenedig eu cyngor, neu
  - yn rhan o gais, neu
  - wedi ei gynnwys yn yr adroddiad neu ffeil cynllunio.

#### Aelodau'r Cyhoedd

Cyfyngir siarad i un aelod o'r cyhoedd yn gwrthwynebu datblygiad ac un aelod o'r cyhoedd yn cefnogi datblygiad. Lle mae mwy nag un person yn gwrthwynebu neu'n cefnogi, dylai'r unigolion neu grwpiau gydweithio i sefydlu llefarydd. Gall Cadeirydd y Pwyllgor weithredu disgresiwn i ganiatáu ail siaradwr ond dim ond mewn amgylchiadau eithriadol lle mae cais sylweddol yn ysgogi gwahanol safbwyntiau o fewn un 'ochr' y ddadl (e.e. cais archfarchnad lle mae un llefarydd yn cynrychioli preswylwyr ac un arall yn cynrychioli manwerthwyr lleol). Gall aelodau'r cyhoedd benodi cynrychiolwyr i siarad ar eu rhan.

Lle na ddeuir i gytundeb, bydd yr hawl i siarad yn mynd i'r person/sefydliad cyntaf i gofrestru eu cais. Lle mae'r gwrthwynebydd wedi cofrestru i siarad caiff yr ymgeisydd neu asiant yr hawl i ymateb.

Cyfyngir siarad i geisiadau lle cyflwynwyd llythyrau gwrthwynebu/cefnogaeth neu lofnodion ar ddeiseb i'r Cyngor gan 5 neu fwy o aelwydydd/sefydliadau gwahanol. Gall y Cadeirydd weithredu disgresiwn i ganiatáu siarad gan aelodau o'r cyhoedd lle gallai cais effeithio'n sylweddol ar ardal wledig prin ei phoblogaeth ond y derbyniwyd llai na 5 o lythyr yn gwrthwynebu/cefnogi.

#### Ymgeiswyr

Bydd gan ymgeiswyr neu eu hasiantau a benodwyd hawl ymateb lle mae aelodau'r cyhoedd neu gyngor cymuned/tref yn annerch pwyllgor. Fel arfer dim ond ar un achlysur y caniateir i'r cyhoedd siarad pan gaiff ceisiadau eu hystyried gan Bwyllgor Cynllunio. Pan ohirir ceisiadau ac yn arbennig pan gânt eu hailgyflwyno yn dilyn penderfyniad pwyllgor i benderfynu ar gais yn groes i gyngor swyddog, ni chaniateir i'r cyhoedd siarad fel arfer. Fodd bynnag bydd yn rhaid ystyried amgylchiadau arbennig ar geisiadau a all gyfiawnhau eithriad.

### **Cofrestru Cais i Siarad**

I gofrestru cais i siarad, mae'n rhaid i wrthwynebwyr/cefnogwyr yn gyntaf fod wedi gwneud sylwadau ysgrifenedig ar y cais. Mae'n rhaid iddynt gynnwys eu cais i siarad gyda'u sylwadau neu ei gofrestru wedyn gyda'r Cyngor.

**Caiff ymgeiswyr, asiantau a gwrthwynebwyr eu cynghori i aros mewn cysylltiad gyda'r swyddog achos am ddatblygiadau ar y cais. Cyfrifoldeb y rhai sy'n dymuno siarad yw gwirio os yw'r cais i gael ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio drwy gysylltu â'r Swyddog Cynllunio, a all roi manylion o'r dyddiad tebygol ar gyfer clywed y cais. Caiff y drefn ar gyfer cofrestru'r cais i siarad ei nodi islaw.**

Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n dymuno siarad hysbysu Swyddogion Gwasanaethau Democraidd y Cyngor drwy ffonio 01633 644219 neu drwy e-bost i [registertospeak@monmouthshire.gov.uk](mailto:registertospeak@monmouthshire.gov.uk). Caiff unrhyw geisiadau i siarad a gaiff eu e-bostio eu cydnabod cyn y dyddiad cau ar gyfer cofrestru i

siarad. Os nad ydych yn derbyn cydnabyddiaeth cyn y dyddiad cau, cysylltwch â Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219 i wirio y cafodd eich cais ei dderbyn.

Mae'n rhaid i siaradwyr wneud hyn cyn gynted ag sydd modd, rhwng 12 canol dydd ar y dydd Mercher a 12 canol dydd ar y dydd Llun cyn y Pwyllgor. Gofynnir i chi adael rhif ffôn y gellir cysylltu â chi yn ystod y dydd.

Bydd y Cyngor yn cadw rhestr o bobl sy'n dymuno siarad yn y Pwyllgor Cynllunio.

### **Gweithdrefn yng Nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio**

Dylai pobl sydd wedi cofrestru i siarad gyrraedd ddim hwyrach na 15 munud cyn dechrau'r cyfarfod. Bydd swyddog yn cynghori ar drefniadau seddi ac yn ateb ymholiadau. Caiff y weithdrefn ar gyfer delio gyda siarad gan y cyhoedd ei osod islaw:

- Bydd y Cadeirydd yn nodi'r cais i'w ystyried.
- Bydd swyddog yn cyflwyno crynodeb o'r cais a materion yn ymwneud â'r argymhelliad
- Os nad yw'r aelod lleol ar y Pwyllgor Cynllunio, bydd y Cadeirydd yn ei (g)wahodd i siarad am ddim mwy na 6 munud
- Yna bydd y Cadeirydd yn gwahodd cynrychiolydd y cyngor cymuned neu dref i siarad am ddim mwy na 4 munud.
- Bydd y Cadeirydd wedyn yn gwahodd yr ymgeisydd neu asiant a benodwyd (os yn berthnasol) i siarad am ddim mwy na 4 munud. Lle mae mwy na un person neu sefydliad yn siarad yn erbyn cais, ar ddisgresiwn y Cadeirydd bydd gan yr ymgeisydd neu'r asiant a benodwyd hawl i siarad am ddim mwy na 5 munud.
- Fel arfer cydymffurfir yn gaeth â chyfyngiadau amser, fodd bynnag bydd gan y Cadeirydd ddisgresiwn i addasu'r amser gan roi ystyriaeth i amgylchiadau'r cais neu'r rhai sy'n siarad.
- Dim ond unwaith y gall siaradwyr siarad.
- Bydd aelodau'r Pwyllgor Cynllunio wedyn yn trafod y cais, gan ddechrau gydag aelod lleol o'r Pwyllgor Cynllunio.
- Bydd y swyddogion yn ymateb i'r pwyntiau a godir os oes angen.
- Yn union cyn i'r mater gael ei roi i'r bleidlais, gwahoddir yr aelod lleol i grynhoi, gan siarad am ddim mwy na 2 funud.
- Ni all cynrychiolydd y cyngor cymuned neu dref neu wrthwynebydd/cefnogwyr neu'r ymgeisydd/asiant gymryd rhan yn ystyriaeth aelodau o'r cais ac ni allant ofyn cwestiynau os nad yw'r cadeirydd yn eu gwahodd i wneud hynny.
- Lle mae gwrthwynebydd/cefnogwr, ymgeisydd/asiant neu gyngor cymuned/tref wedi siarad ar gais, ni chaniateir unrhyw siarad pellach gan neu ar ran y grŵp hwnnw pe byddai'r cais yn cael ei ystyried eto mewn cyfarfod o'r pwyllgor yn y dyfodol heblaw y bu newid sylweddol yn y cais.
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, gall y Cadeirydd neu aelod o'r Pwyllgor yn achlysurol geisio eglurhad ar bwynt a wnaed.
- Mae penderfyniad y Cadeirydd yn derfynol.
- Wrth gynnig p'un ai i dderbyn argymhelliad y swyddog neu i wneud diwygiad, bydd yr aelod sy'n gwneud y cynnig yn nodi'r cynnig yn glir.
- Pan gafodd y cynnig ei eilio, bydd y Cadeirydd yn dweud pa aelodau a gynigiodd ac a eiliodd y cynnig ac yn ailadrodd y cynnig a gynigwyd. Caiff enwau'r cynigydd a'r eilydd eu cofnodi.
- Bydd aelod yn peidio pleidleisio yng nghyswllt unrhyw gais cynllunio os na fu'n bresennol drwy gydol cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio, y cyflwyniad llawn ac ystyriaeth y cais neilltuol hwnnw.
- Bydd unrhyw aelod sy'n ymatal rhag pleidleisio yn ystyried p'un ai i roi rheswm dros ei (h)ymatal.
- Bydd swyddog yn cyfrif y pleidleisiau ac yn cyhoeddi'r penderfyniad.

### **Cynnwys yr Arweithiau**

Dylai sylwadau gan gynrychiolydd y cyngor tref/cymuned neu wrthwynebydd, cefnogwr neu ymgeisydd/asiant gael eu cyfyngu i faterion a godwyd yn eu sylwadau gwreiddiol a bod yn faterion cynllunio perthnasol. Mae hyn yn cynnwys:

- Polisiâu cynllunio cenedlaethol a lleol perthnasol
- Ymddangosiad a chymeriad y datblygiad, gweddllun a dwysedd

- Cynhyrchu traffig, diogelwch priffordd a pharcio/gwasanaethu;
- Cysgodi, edrych dros, ymyriad sŵn, aroglau neu golled arall amwynder.

Dylai siaradwyr osgoi cyfeirio at faterion y tu allan i gylch gorchwyl y Pwyllgor Cynllunio, megis:

- Anghydfod ffiniau, cyfamodau a hawliau eraill eiddo
- Sylwadau personol (e.e. cymhellion neu gamau gweithredu'r ymgeisydd hyd yma neu am aelodau neu swyddogion)
- Hawliau i olygfeydd neu ddibrisiant eiddo.